BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **HEB EU CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 3 HYDREF 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis-Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Teresa Rees
Andy Carter
Dafydd Whittall
Alex McMillan
Nicola Branson
Jane James
Roy Grant
Carl Cooper

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Jared Walters, Cynorthwy-ydd Tîm, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales

67. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Sangeet Bhullar
Dennis Gethin
Arun Midha

68. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor ynghylch y drafodaeth a oedd yn digwydd o fewn y BBC ynghylch ei hymateb i Adolygiad OFCOM o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus.

Hysbysodd y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud peth gwaith i weld sut y gallai symleiddio ei gweithgarwch, ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lwyth gwaith y Cyngor hefyd.

Dywedodd er bod y cyhoedd yn cael ei hysbysu'n rheolaidd ynghylch y trafferthion ariannol y mae darlledwyr eraill yn eu hwynebu, roedd y BBC yn dioddef yn yr hinsawdd economaidd bresennol hefyd. Mae ffactorau megis costau ynni uwch yn cael effaith sylweddol gan fod y BBC yn sefydliad sy'n defnyddio llawer o ynni.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod y *Ten O'clock News* wedi denu cynulleidfaoedd enfawr yn ystod yr wythnosau diwethaf, a dywedodd bod gwasanaeth Arabaidd y BBC a lansiwyd yn ddiweddar eisoes yn denu cynulleidfaoedd mawr ar draws Gogledd Affrica a gwladwriaethau Ceufor Persia.

Adroddiad chwarterol ar waith deall cynulleidfaoedd yr Ymddiriedolaeth – cymeradwyodd y Cyngor y papur gan ddweud ei fod wedi bod yn ddefnyddiol iawn, ac roedd yn croesawu'n arbennig y mewnbwn a gafwyd gan bob Cyngor Cynulleidfa a oedd wedi rhoi cyfle i'r Cynghorau ddysgu o weithgareddau ei gilydd.

Adolygiad yr Ymddiriedolaeth o Gasglu Ffi'r Drwydded Deledu – roedd yr adolygiad hwn wedi cael ei lansio erbyn hyn, a gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i bwyso a mesur yr ymateb i'r mater hwn cyn y cyfarfod ym mis Tachwedd lle byddai'r adolygiad yn cael ei drafod yn fanwl. Cymeradwyodd y Cyngor y pamffledi Cymraeg a Saesneg a oedd wedi cael eu cyhoeddi i annog pobl i ymateb i'r adolygiad.

Adolygiad Didueddrwydd yr Ymddiriedolaeth – gwahoddwyd y Cyngor i gytuno â'r cynnig y dylai aelodau'r Cyngor adolygu wythnos o gynnyrch newyddion y Rhwydwaith. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethu y byddai'n hysbysu aelodau'r Cyngor ynghylch pa wythnos y dylent ei hadolygu. Dywedodd hefyd bod adnoddau'n cael eu datblygu i sicrhau bod y gwaith gwerthuso'n wrthrychol, ond dywedodd y byddai tystiolaeth anecdotaidd yn ddefnyddiol hefyd.

Y Blaenoriaethau o ran Cynulleidfaoedd ar gyfer 2009/10 - Cymeradwyodd y Cyngor y papur a osodwyd ger bron. Roedd y papur yn canolbwyntio ar y ffiniau arfaethedig newydd a fyddai'n llywio gwaith y Cynghorau wrth iddynt osod blaenoriaethau o ran cynulleidfaoedd yn y dyfodol ac wrth i'r blaenoriaethau hynny gael eu mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth. Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu y Cyngor y byddai angen iddo benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer 2009-10 yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Roedd y materion a godwyd fel posibiliadau'n cynnwys monitro Newyddion y Rhwydwaith yn barhaus gan ystyried Adolygiad Didueddrwydd 2008. Blaenoriaeth arall bosibl oedd cael mynediad i wasanaethau'r BBC - yn enwedig sicrhau bod band llydan ar gael a bod mynediad i wasanaethau'r BBC ar y rhyngrwyd. Tynnwyd sylw at gomisiynu y tu allan i Lundain ar gyfer y Rhwydwaith fel blaenoriaeth bosibl hefyd - gan gynnwys comisiynu ar gyfer y radio. Nodwyd fel blaenoriaethau posibl y modd y mae'r BBC yn portreadu pobl a lleoedd ac annibyniaeth y BBC. Cytunodd y Cyngor y byddai'n trafod y mater ynghylch gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl h□n ymhellach gan geisio rhoi blaenoriaeth i hyn. Dywedodd y Cyngor y gellid ystyried gyda'i gilydd y modd y caiff ardaloedd o'r DU y tu allan i Lundain eu portreadu a chomisiynau y tu allan i Lundain ar gyfer y Rhwydwaith. Cytunwyd y byddai'r blaenoriaethau posibl hyn yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod y Cyngor Cynulleidfa ym mis Tachwedd.

Ymunodd y tîm rheoli â'r cyfarfod

69. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

O ran materion sy'n codi o'r cofnodion, rhoddodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y modd y mae darpariaeth *bbc.co.uk* yn cael ei hariannu a'r effaith y mae toriadau mewn cyllid yn ei chael ar brosiectau Cyfryngau Newydd yng Nghymru. Er enghraifft, roedd cyfyngiadau mewn perthynas â chyllid wedi arwain at ddileu'r wefan *Doctor Who Comic maker*, ac roedd wedi cael effaith ar brosiectau megis gwefan *Human Planet*, lle gwelwyd gostyngiad o 75% yn y cyllid a oedd ar gael ar ei chyfer. Fodd bynnag, dywedodd mai'r effaith gyffredinol oedd bod y toriadau mewn cyllid wedi arafu datblygiad a lleihau comisiynau.

70. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol – hysbysodd y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn ystyried Adolygiad OFCOM o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus yn ddiweddar. Dywedodd y Cyngor ei bod yn bryder enfawr nad yw safbwyntiau sy'n cael eu mynegi yng Nghymru yn cael eu clywed y tu allan i Gymru bob amser, a bod cyfeiriadau OFCOM at Gymru yn ymddangos fel pe baent yn cael eu gwneud wrth fynd heibio. Dywedodd aelodau'r Cyngor ei bod yn hynod o bwysig cadw llygad ar y ffordd yr oedd y drafodaeth hon yn datblygu.

Roedd y dadleuon ynghylch absenoldeb lluosogrwydd yng Nghymru yn datblygu'n gyflym, ac roedd yn bwysig bod y BBC yn effro i'r gwahaniaethau gwleidyddol a masnachol a oedd yn bodoli yng Nghymru. Tynnwyd sylw hefyd at y perygl y gallai lleihau'r amserlen ddisgwyliedig arwain at anwybyddu cymhlethdodau'r sefyllfa.

Gan gyfeirio at gwotâu Haen 2 OFCOM, hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno i gyfeirio'r mater hwn at OFCOM mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar. Gan fod y newid i deledu digidol yn golygu y byddai BBC Wales a BBC 2W yn cael eu huno, roedd angen cael cytundeb OFCOM i leihau'r cwotâu Haen 2 cyffredinol hyn, gan gynnwys rhaglenni teledu a oedd yn cael eu darlledu gan BBC Cymru Wales yn yr oriau brig ac yn y cyfnod cyn ac ar ôl yr oriau brig.

Rheolwr Cymru

Hysbysodd Rheolwr Cymru y Cyngor bod 'toriad trychinebus wedi bod yn y cyflenwad trydan' yn safle BBC Wales yn Llandaf, Caerdydd ar y dydd Sul cynt. Dywedodd bod Radio Wales a Radio Cymru wedi bod oddi ar yr awyr am hyd at awr, a bod y toriad wedi effeithio ar wasanaethau eraill hefyd megis teledu digidol. Hysbysodd y Cyngor bod nifer o systemau wrth gefn i'w cael ond roedd pob un ohonynt wedi methu. Roedd ymchwiliad yn cael ei gynnal i ddarganfod pam bod hyn wedi digwydd, ond nid oedd wedi cael ei gwblhau eto. Dywedodd bod y digwyddiad hwn wedi dangos cymaint yw ffyddlondeb y staff (yn enwedig y peirianwyr, a fu'n hynod o ddyfeisgar wrth ddod o hyd i ffyrdd o gael y gwasanaethau yn ôl ar yr awyr), a thalodd deyrnged i'r Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes fel Cadeirydd Tîm Dilyniant Busnes BBC Wales.

Hysbysodd y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd y Cyngor bod Gwasanaeth Gwybodaeth y BBC wedi cael tua 500 o alwadau ffôn mewn ymateb i'r sefyllfa, ac roedd pob un o'r ymholiadau hyn yn gofyn am fwy o wybodaeth yn hytrach na chwyno.

Cymeradwyodd y Cyngor ymateb tîm rheoli BBC Wales i'r sefyllfa hon, a chytunodd y byddai'n rhoi esboniad byr ar ei wefan ei hun.

GWEITHREDU: yr Ymgynghorydd Atebolrwydd

Hysbysodd Rheolwr Cymru'r Cyngor bod mwy o waith wedi cael ei wneud â datblygwyr ynghylch strategaeth eiddo BBC Wales, a bod disgwyl i'r cynigion gyrraedd yn fuan. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at wneud gwaith sylweddol pellach ar y costau sydd ynghlwm wrthynt.

Hysbysodd y Cyngor bod y cyngerdd *Proms in the Park* wedi bod yn llwyddiant aruthrol eleni eto, ac roedd y tywydd wedi bod yn garedig ar gyfer y digwyddiad. Roedd BBC Cymru Wales wedi mynychu cynadleddau gwleidyddol pob plaid, ac roedd ei phresenoldeb wedi cael ei ystyried yn llwyddiant.

Adroddiad y Bwrdd

Hysbysodd y Pennaeth Datblygu Darlledu y Cyngor y byddai'r amserlen newydd ar gyfer dydd Sul ar Radio Wales yn cael ei lansio'n fuan. Byddai *Good Morning Wales* yn dechrau ar foreau Sul a byddai Ruth Jones yn cyflwyno rhaglen newydd ar Radio Wales ganol y bore ar ddydd Sul.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd y Cyngor y byddai Radio Cymru yn cael ei integreiddio i'r iPlayer yn fuan iawn. Dywedodd bod Cymru yn gategori ar wahân ar yr iPlayer a bod rhyngwyneb Cymraeg iPlayer wedi cael ei lansio'n ddiweddar. Hysbysodd y Cyngor hefyd bod amserlen newydd Radio Cymru ar gyfer y gaeaf newydd ddechrau.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) y Cyngor bod y rhaglen deledu newydd *Merlin* wedi bod yn llwyddiant o ran cynulleidfaoedd ac ymysg y beirniaid. Dangosodd dâp o'r sioeau a fyddai'n cael eu darlledu yn ystod yr hydref.

Nododd y Cyngor bod y sylw a roddwyd i'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd gan y BBC yn dal i gael sylwadau cadarnhaol, a hynny rai misoedd ar ôl y digwyddiad.

71. CAM 2 O ADOLYGIAD OFCOM O DDARLLEDU FEL GWASANAETH CYHOEDDUS

Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor am y drafodaeth yr oedd wedi'i chael yng nghinio preifat y Cyngor y noson flaenorol, a dywedodd ei bod yn bwysig sicrhau bod ymatebion yn cael eu cyflwyno mor gadarn ag sy'n bosibl, a bod sefyllfa unigryw Cymru yn cael ei phwysleisio'n glir.

Cymeradwyodd y Cyngor y papur briffio ar y mater a oedd wedi cael ei baratoi gan staff Uned Ymddiriedolaeth y BBC. Cytunodd yr aelodau hynny o'r Cyngor a fyddai'n mynychu cyfarfod nesaf Bwrdd OFCOM ynghylch Cynnwys y byddent yn rhoi adborth o'u hargraffiadau o'r digwyddiad hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Tachwedd, pan fyddai'r mater hwn ar agenda'r Cyngor unwaith eto.

Atgoffwyd y Cyngor ynghylch digwyddiad BBC Cymru Wales ar 19 Tachwedd a fyddai'n seiliedig ar y thema *Coal House at War*. Byddai aelodau'r Ymddiriedolaeth ac aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad hwnnw.

72. TRAFODAETH AR ADOLYGIAD YR YMDDIRIEDOLAETH O WASANAETHAU AR GYFER POBL IAU

Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod yr Adolygiad hwn wedi cael ei lansio yn gynharach yn yr wythnos. Dywedodd y Cyngor bod yr Adolygiad yn cwmpasu ystod oedran eang iawn - o 13 i 34 oed - ac felly byddai'n bwysig peidio â gorgyffredinoli'r ymateb a roddir. Yn hytrach dylid adlewyrchu'r gwahaniaethau sy'n dod i'r amlwg yn atebion cynulleidfaoedd o wahanol oedrannau ac ymatebion y rheiny nad Saesneg yw eu mamiaith.

Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu'r Cyngor bod digwyddiadau allgyrraedd yn cael eu trefnu ag aelodau o gynulleidfaoedd yn yr ystod oedran honno. Byddai'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ym Mangor (1 Rhagfyr) ac yn Aberystwyth (i gyd-fynd â chyfarfod Cyngor Cynulleidfa Cymru yno), a byddent yn canolbwyntio ar wahanol ystodau oedran. Byddai'r digwyddiad ym Mangor yn canolbwyntio ar bobl ifanc o oedran ysgol, a byddai'r digwyddiad yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar fyfyrwyr prifysgol. Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu'r Cyngor bod digwyddiad yn cael ei drefnu ar y cyd â Chymdeithas y Geidiau, a byddai manylion am y digwyddiad arfaethedig yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor yn fuan.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol er bod yr Adolygiad yn canolbwyntio ar BBC Three, Radio 1 a 1XTRA, nid oedd wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau hyn o gwbl, ac felly gallai gynnwys cynnyrch y BBC ar S4C a chynnyrch y BBC ar gyfer pobl ifanc sy'n cael ei ddarlledu ar Radio Cymru a Radio Wales. Gofynnodd y Cyngor am eglurhad ynghylch y modd y byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn cael ei defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth, gan ei bod yn amlwg na fyddai'n cael ei defnyddio yn yr adolygiad ffurfiol o Drwyddedau Gwasanaeth Radio 1, BBC Three a 1XTRA. Cytunodd y Pennaeth Llywodraethu y byddai'n ceisio cael eglurhad ynghylch y mater hwn.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales

Wrth edrych ymlaen at y digwyddiad allgyrraedd yn Aberystwyth, dywedodd y Cyngor y byddai'n ddefnyddiol gofyn i'r cyfranogwyr sut yr oeddent yn cael mynediad i wasanaethau'r BBC, pa raglenni yr oeddent yn eu gwerthfawrogi a sut yr oeddent yn gweld eu perthynas â'r BBC yn ogystal â lefel eu hadnabyddiaeth o frand y BBC.

Ailadroddodd y Cyngor y byddai'n bwysig rhoi ystyriaeth ofalus i'r modd yr oedd y sesiynau wedi cael eu strwythuro a'r iaith a ddefnyddiwyd. Pwysleisiodd y Cyngor bwysigrwydd 'rhoi caniatâd' i gyfranogwyr ymdrin â'r ystod ehangaf posibl o wasanaethau'r BBC hefyd.

Cododd y Cyngor y mater ynghylch y ddarpariaeth o ddeunyddiau addysgol Cymraeg gan bwysleisio y byddai angen i'r trafodaethau sydd i ddod ganolbwyntio ar brif egwyddorion y BBC, sef hysbysu, addysgu a difyrru.

Cytunodd y Pennaeth Llywodraethu i gylchredeg cwestiynau a fyddai'n sbarduno trafodaeth ar gyfer pob digwyddiad o flaen llaw er mwyn cael sylwadau arnynt.

73. STRATEGAETH ALLGYRRAEDD CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU

Hysbysodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y Cyngor bod gwaith wedi dechrau eisoes gyda Chynghorau Gweithredu Gwirfoddol i annog ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r Cyngor Cynulleidfa, a bod cyfleoedd yn cael eu harchwilio hefyd ar gyfer dulliau eraill o gydweithredu, megis gwaith allgyrraedd.

Byddai gweithgarwch allgyrraedd yn ystod y flwyddyn nesaf yn cael ei gydlynu cymaint ag y bo modd i gyd-fynd â gwaith Ymddiriedolaeth y BBC, ond hyd yn hyn nid yw cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2009/10 wedi'i gytuno. Y tro nesaf y byddai'n cael ei baratoi roedd yn debygol y byddai'n cynnwys gwybodaeth lawnach, a byddai hyn felly'n sail i weithgarwch y Cyngor.

Gan gyfeirio at sylwadau'r Cyngor yn y gorffennol ynghylch darpariaeth y BBC ar gyfer pobl h□n, dywedodd y Pennaeth Llywodraethu bod gwaith yn cael ei wneud i drefnu digwyddiad allgyrraedd â phobl h□n a allai fod yn sail i un o Flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer Cynulleidfaoedd.

Cymeradwyodd y Cyngor ddogfen Strategaeth Allgyrraedd Cyngor Cynulleidfa Cymru, cytunodd â'i chasgliadau a nododd y dylid cyfeirio ati'n rheolaidd i lywio gweithgareddau'r Cyngor.

Hysbyswyd y Cyngor hefyd bod taflen yn cael ei pharatoi ar waith a rôl y Cyngor Cynulleidfa, fel yr awgrymwyd gan y Cyngor mewn cyfarfod blaenorol, a dywedwyd y byddai'r daflen hon ar gael yn fuan.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai Diwrnod Cynghorau Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC yn cael ei gynnal ar 21 Ionawr 2009.

Gofynnodd y Cyngor a ellid rhoi mwy o sylw i'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd a'r e-bost wrth annog mewnbwn gan gynulleidfaoedd, ac wrth hysbysu'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau o'r camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd yn dilyn eu sylwadau.

74. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol at sylw'r Ymddiriedolaeth.

75. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Tachwedd yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth, ac y byddai'n cael ei ddilyn gan ddigwyddiad allgyrraedd gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dywedwyd y byddai aelodau'r Cyngor yn mynychu cyngerdd gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar nos Iau 6 Tachwedd.

***